# Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023

**2023 dsc 3**

## RHAN 2

HENEBION O DDIDDORDEB HANESYDDOL ARBENNIG

## PENNOD 6

CAFFAEL, GWARCHEIDIAETH A MYNEDIAD Y CYHOEDD

*Gwarcheidiaeth henebion o ddiddordeb hanesyddol arbennig*

PROSPECTIVE

### 45 Pŵer i osod heneb o ddiddordeb hanesyddol arbennig o dan warcheidiaeth

(1) Caiff person sydd â buddiant cymhwysol mewn heneb o ddiddordeb hanesyddol arbennig, gyda chytundeb Gweinidogion Cymru, eu penodi drwy weithred yn warcheidwaid yr heneb.

(2) Caiff person sydd â buddiant cymhwysol mewn heneb o ddiddordeb hanesyddol arbennig, gyda chytundeb unrhyw awdurdod lleol y mae'r heneb yn ei ardal neu yng nghyffiniau ei ardal, benodi'r awdurdod drwy weithred yn warcheidwad yr heneb.

(3) Ni chaiff person nad yw'n feddiannydd heneb sefydlu gwarcheidiaeth yr heneb o dan yr adran hon oni bai bod y meddiannydd hefyd yn barti i'r weithred.

(4) Caiff unrhyw berson arall a chanddo fuddiant yn yr heneb fod yn barti i'r weithred yn ogystal â'r person sy'n sefydlu gwarcheidiaeth yr heneb a (phan nad y person hwnnw yw'r meddiannydd) y meddiannydd.

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 15/06/2023. Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, Adran 45 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 16 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(5) Mae'r buddiannau a ganlyn mewn heneb yn fuddiannau cymhwysol at ddibenion yr adran hon—

(a) ystad rydd-ddaliadol;

(b) ystad lesddaliadol, neu fuddiant mewn meddiant—

(i) sydd ag o leiaf 45 o flynyddoedd yn weddill, neu

(ii) y gellir ei hadnewyddu neu ei adnewyddu am o leiaf 45 o flynyddoedd;

(c) buddiant mewn meddiant am oes y person ei hun neu oes person arall, neu am oesau (pa un a ydynt yn cynnwys oes y person ei hun ai peidio), o dan unrhyw ymddiriedolaeth tir bresennol neu yn y dyfodol pan fo'r ystad neu'r buddiant sy'n ddarostyngedig i'r ymddiriedolaeth yn dod o fewn paragraff (a) neu (b).

(6) Yn is-adran (5)(c) mae i "ymddiriedolaeth tir" yr un ystyr ag a roddir i "trust of land" yn Neddf Ymddiriedolaethau Tir a Phenodi Ymddiriedolwyr 1996 (p. 47).

(7) Yn y Bennod hon ystyr "gweithred warcheidiaeth" yw gweithred a gyflawnir o dan is-adran (1) neu (2).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 45 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 212(2)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 15/06/2023. Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, Adran 45 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 16 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.